

## Tasg 2

# Pryd ...?

### Technoleg

1. Sut mae'r ffordd o fyw yn y darnau hyn yn wahanol i'n ffordd ni o fyw heddiw?  
Ysgrifennwch eich syniadau yn y gridiau isod, e.e.

#### Darn 1

<b>Beth?</b>	<b>Sut mae wedi newid?</b>
Mae derbyn llythyr a dymuniadau da ar gyfer pen-blwydd yn beth "annisgwyl" - dydy'r chwaer ddim wedi anfon llythyr o'r blaen.	Rydym yn gallu anfon llythyrau a chardiau pen-blwydd drwy'r post, drwy e-bost a drwy'r ffôn.

**Darn 2**

<b>Beth?</b>	<b>Sut mae wedi newid?</b>

**Darn 3**

<b>Beth?</b>	<b>Sut mae wedi newid?</b>

2. Trafodwch eich syniadau mewn grŵp.
3. Beth sy'n gyfrifol am y newidiadau hyn?

4. Sut mae'r ffôn clyfar wedi helpu gyda'r newidiadau hyn?

Trafodwch hyn mewn grŵp a gwnewch nodiadau.

Cymharwch eich syniadau chi â syniadau grwpiau eraill.

5. Dychmygwch fod gennych chi ffrind sy'n byw ar gyfandir arall.

Ysgrifennwch ato / ati yn sôn am beth rydych chi wedi bod yn ei wneud yn ddiweddar.

Soniwch am y dechnoleg rydych chi wedi bod yn ei defnyddio.

Defnyddiwch ffurf addas.

Meddyliwch ...

Ymhen ugain mlynedd, bydd pethau wedi newid a datblygu eto a bydd y dechnoleg rydych chi'n sôn amdani yn y darn yn hen-ffasiwn iawn o bosib!